| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **27 Mehefin 2022** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - THE OLD WIVES' TALE** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. <u>CAIS A DDERBYNIWYD</u>

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer The Old Wives' Tale, 21 Stryd Tegid, Y Bala, LL23 7EH gan Mr Rui Azevedo Brasil. Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer bwyty sydd yn gweni bwyd o Bortiwgal ; gyda'r pwyslais ar brydau ffres sydd yn cael eu gweni ran amlaf gyda 'r nos . Mae'n gofyn am yr hawl i werthu alcohol gyda phrydau , i'w gweini gyda bwyd ar yr eiddo yn unig.

1.2 Gwneir y cais am yr hawl hefyd i chware cerddoriaeth wedi ei recordio a chynnal adloniant byw o 7 y bore tan 11 yr hwyr; saith diwrnod yr wythnos. Gofynnir am yr hawl i weini alcohol , gyda phrydau bwyd o 12 o'r gloch hyd at 11 yr hwyr; saith diwrnod yr wythnos.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais ; ond fe dderbyniwyd sylwadau gan swyddog Gwarchod y Cyhoedd yn cadarnhau fod amodau rheoli sŵn cerddoriaeth wedi ei argymell i'r ymgeisydd; ac fe dderbyniwyd e bost gan yr ymgeisydd yn cadarnhau ei fod yn fodlon derbyn yr amodau rheoli sŵn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

**Oriau agor/Opening Hours**

| | |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Llun/Monday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 07:00 - 23:00 |

**Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:**

**Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do :: Indoors**

| | |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Llun/Monday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 07:00 - 23:00 |

**Cerddoriaeth wedi ei recordio/Recorded Music: Dan do :: Indoors**

| | |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Llun/Monday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 07:00 - 23:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 07:00 - 23:00 |

**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar yr Eiddo :: On the Premises**

| | |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 12:00 - 23:00 |
| Dydd Llun/Monday | 12:00 - 23:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 12:00 - 23:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 12:00 - 23:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 12:00 - 23:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 12:00 - 23:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 12:00 - 23:00 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Y bwriad yw gwerthu alcohol gyda phrydau yn unig , ar yr eiddo
- Gweithredir system Teledu Cylch Cyfyng
- Maes parcio cyhoeddus ger llaw ar gyfer cwsmeriaid
- Rheolaeth dros faint o alcohol a weinir
- Ni fwriedir i unrhyw adloniant fod yn uchel

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd | E-bost - sylwadau ac argymhelliad ar amodau sŵn. |
| | |

### 3.2 Sylwadau Gwarchod y Cyhoedd

3.3 Fe ohebwyd gyda'r ymgeisydd parthed pryderon y gwasanaeth oherwydd bod y cais yn gofyn am yr hawl i gynnal cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio saith diwrnod yr wythnos . Nododd y swyddog fod yr eiddo wedi ei leoli yng nghanol ardal breswyl; a bod preswylfan uwch ben yr eiddo ; ac felly fod angen mesurau reoli sŵn.

3.4 Yn dilyn trafodaeth gyda'r swyddog am y pryderon hyn – fe gytunodd yr ymgeisydd i dderbyn amodau rheoli sŵn ar yr eiddo ac yn ogystal cytunodd i gwtogi oriau adloniant rheoledig fel a ganlyn –

- Pedair noson o gerddoriaeth fyw'r mis yn unig
- Cerddoriaeth acwsteg yn unig - i'w chware drwy system sŵn yr eiddo; gyda lefel y sŵn yn cael ei reoli yn uno; a'r amodau a argymhellwyd ( gweler atodiad i'r adroddiad)

- Oriau cerddoriaeth fyw i’w gyfyngu i 7yr hwyr tan 11 yr hwyr gydag unrhyw ymestyniad achlysurol i hyn yn cael ei gyflwyno drwy Rybuddion Digwyddiad Dros Dro
- Cerddoriaeth wedi ei recordio yn cael ei gyfyngu i 12 tan 11 yr hwyr , a gosod lefelau sŵn rhesymol i gyd-fynd a’r amodau sŵn a osodir ar y drwydded.
- Dim cerddoriaeth i’w chware tu allan

Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn yr amodau rheoli sŵn a gytunodd yr ymgeisydd i gael ar atodlen weithredol y drwydded.

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo’r cais , yn unol â’r Ddeddf Drwyddedu a’r amodau rheoli sŵn a gytunodd yr ymgeisydd i ychwanegu at atodlen weithredol ei drwydded.